O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 700 (Cy. 165)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym* | *23 Mehefin 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mehefin 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn

---

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân a Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel; ac

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor yr A487 rhwng Porthmadog a Thremadog yn Sir Gwynedd;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 20 Mehefin 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 30 mya**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd, sy'n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog hyd at bwynt 295 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd yn Nhremadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 43.5 o fetrau i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys hollti cyfagos i Gylchfan

Tremadog hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys hollti honno.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog, Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r dwyrain o ben de-ddwyreiniol yr ynys hollti cyfagos i Gylchfan Tremadog hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Llan, Tremadog.